Mynychu cyfarfod Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru

Mae Technoleg Iechyd Cymru (HTW) yn croesawu aelodau'r cyhoedd yng nghyfarfodydd ein Panel Arfarnu.

Er mwyn eich helpu i ddeall trefn ein cyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus rydym wedi casglu ynghyd rai cwestiynau cyffredin ac atebion iddynt. Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac y bydd yn eich helpu i ddeall sut mae HTW yn gweithio i geisio diwallu anghenion pobl Cymru o ran gwneud y defnydd gorau o dechnolegau iechyd yn y GIG.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod y cyfarfod sgwrsiwch â chydlynydd y cyfarfod yn y man cyntaf.

Beth yw Technoleg Iechyd Cymru?
Corff cenedlaethol sy'n gweithio i wella ansawdd gofal yng Nghymru yw Technoleg Iechyd Cymru (HTW). Rydym yn cydweithio â phartneriaid ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thechnoleg i sicrhau dull Cymru gyfan. Cawn ein cyllido gan Lywodraeth Cymru ac fe'n lletyir gan GIG Cymru, ond rydym yn annibynnol ar y ddau.

Rydym yn asesu technolegau iechyd a gofal nad sy'n feddyginiaeth ac yn cyhoeddi canllawiau awdurdodol ac annibynnol yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r arbenigedd gorau sydd ar gael. Rydym yn arfarnu technolegau drwy gydol eu cylch oes, o arloesedd hyd ddarfodoldeb.

Mae ein gwaith yn llywio'r broses comisiynu gan GIG Cymru a darparwyr gofal ac yn cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau i wneud penderfyniadau a hysbysir gan dystiolaeth ynglŷn â buddsoddiadau a dadfuddsoddiadau technoleg.

Mae ein cylch gwaith yn cwmpasu unrhyw dechnoleg iechyd nad sy'n feddyginiaeth, megis dyfeisiau meddygol, gweithdrefnau llawdriniaethol, therapïau seicolegol, telefonitro neu adsefydlu. Asesir meddyginiaethau o fewn cylch gwaith ein cydweithwyr yn Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan.

Beth yw Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru?
Bydd HTW yn cynnal hyd at chwe chyfarfod Panel Arfarnu y flwyddyn.

Mae'r Panel Arfarnu yn ystyried yr achos dros fabwysiadu technolegau nad sy'n feddyginiaeth a atgyfeirir at HTW ar gyfer eu harfarnu yng nghyd-destun GIG Cymru, a bydd yn cynhyrchu canllaw HTW. Mae'r Panel Arfarnu hefyd yn ein helpu i nodi

pynciau pwysig, yn arfarnu'r pwy sy'n defnyddio'r canllawiau ac yn hwyluso ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae tua 26 aelod ar Banel Arfarnu HTW. Mae'r aelodau'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd yng Nghymru ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, sy'n cynnwys nifer o grwpiau gwasanaeth iechyd cenedlaethol, diwydiant a phrifysgolion. Mae partneriaid cyhoeddus HTW hefyd yn eistedd ar y pwyllgor er mwyn sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei ystyried pan wneir penderfyniadau. Mae'r gymysgedd hon o gefndiroedd yn cynorthwyo i sicrhau bod canllawiau HTW yn cael eu llywio gan ystod eang o safbwyntiau.

Cynhelir y Panel Arfarnu drwy gyfrwng y Saesneg.

I gael rhagor o wybodaeth am y Panel Arfarnu a'n Proses Arfarnu, ewch i'n gwefan: http://www.healthtechnology.wales/about/appraisal-panel

Pa wybodaeth fydd yn cael ei hasesu yn y cyfarfod?
Cyfarfod y Panel Arfarnu yw rhan olaf proses asesu HTW. Ar gyfer pob eitem o dechnoleg sy'n cael ei hystyried, bydd aelodau'r Panel Arfarnu yn trafod ac yn adolygu'r holl dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys: y cynnyrch adolygiad tystiolaeth a barn arbenigwyr clinigol, sefydliadau cleifion, gwneuthurwyr ac eraill a gyflwynwyd yn ystod y broses adolygu gan gymheiriaid. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried yr holl wybodaeth hon wrth baratoi Canllaw HTW.

Presenoldeb y cyhoedd mewn cyfarfodydd Panel Arfarnu HTW
O fis Tachwedd 2019 cynhelir ein cyfarfodydd yn gyhoeddus. Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i fod yn agored a thryloyw. Gobeithiwn y bydd yn helpu pobl i ddeall sut yr ydym yn ystyried tystiolaeth cyn cyhoeddi Canllaw sy'n amlinellu a yw Panel Arfarnu HTW, yn seiliedig ar y dystiolaeth, yn cefnogi mabwysiadu'r dechnoleg iechyd sy'n cael ei hystyried yng Nghymru ai peidio.

Gall hyd at 10 o aelodau'r cyhoedd fynychu pob Panel Arfarnu fel sylwedyddion, gyda dim mwy na dau unigolyn o bob sefydliad. Os bydd cyfarfod wedi'i ordanysgrifio, rhoddir blaenoriaeth i aelodau'r cyhoedd a grwpiau budd cleifion, yn ogystal â gwneuthurwyr y dechnoleg a drafodir.

Cyhoeddir agenda'r cyfarfod ar y wefan pum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Pwy all fod yn sylwedyddion o blith y cyhoedd?
Sylwedyddion o blith y cyhoedd yw'r rheini sy'n dod i wylio cyfarfod Panel Arfarnu HTW ond sydd ddim yn uniongyrchol gysylltiedig â busnes y cyfarfod.

Efallai y bydd y sylwedyddion hyn yn cynnwys:

- aelodau o'r cyhoedd
- aelodau o'r wasg
- cynrychiolwyr o'r diwydiannau fferyllol neu ofal iechyd
- cynrychiolwyr o sefydliadau cleifion, gofalwyr a'r sector gwirfoddol

Gall sylwedyddion o blith y cyhoedd wrando ar fusnes y cyfarfod, ac eithrio pan fo gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei thrafod. Fodd bynnag, ni chânt gymryd rhan yn y trafodaethau, gofyn cwestiynau na phleidleisio, na datgan eu barn wrth aelodau'r Panel Arfarnu.

Pwy arall fydd yn y cyfarfod?
Yn ogystal ag aelodau Panel Arfarnu HTW, bydd aelodau staff sy'n rhan o gynnal a chefnogi'r cyfarfod yn bresennol.

Gyda chaniatâd Cadeirydd Panel Arfarnu HTW, efallai y bydd y bobl ganlynol hefyd yn bresennol:

- Cleifion neu arbenigwyr lleyg
- Arbenigwyr clinigol neu dechnegol
- Cynrychiolwyr y gwneuthurwr neu gynrychiolwyr allanol eraill
- Sylwedyddion eraill sydd wedi'u gwahodd

Pryd a lle cynhelir cyfarfodydd?
Mae calendr o ddyddiadau'r Panel Arfarnu yn y dyfodol i'w weld ar wefan HTW.

Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn yr Hyb Gwyddorau Bywyd, Bae Caerdydd. Fel arfer bydd cyfarfodydd yn digwydd rhwng 1-4pm (yn fras). Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r manylion y cyfarfod penodol yr ydych am ei fynychu, oherwydd weithiau gall hyn amrywio rhwng cyfarfodydd.

Os bydd cyfarfod yn cael ei ganslo, neu os bydd amser a/neu leoliad y cyfarfod yn newid, cyhoeddir y manylion hyn ar wefan HTW a byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl.

Sut allaf i gofrestru i fynychu cyfarfod Panel Arfarnu?
Gallwch gofrestru i fynychu cyfarfod ar wefan HTW hyd at 20 diwrnod gwaith cyn y bydd yn digwydd. Bydd cofrestru fel arfer yn cau 10 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd hyd at 10 lle ar gael. Pan fydd cyfarfodydd wedi'u gordanysgrifio, efallai y bydd angen i HTW gyfyngu ar nifer y lleoedd y gallwn eu cynnig.

Ni allwn gadw lle na dderbyn archebion bloc i arsylwi ar gyfarfodydd Panel Arfarnu. Llenwch y ffurflen gofrestru ar-lein ar wefan HTW i wneud cais i arsylwi ar gyfarfod penodol. A fyddech cystal â nodi na fydd hi'n bosibl derbyn ceisiadau hwyr i gofrestru.

Pryd ddylwn i gyrraedd a beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd y cyfarfod?
Cyrhaeddwch yn brydlon 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod. Pan fyddwch yn cyrraedd croesewir chi gan gydlynydd y cyfarfod, a fydd yn esbonio sut y bydd y cyfarfod yn gweithio. Cydlynydd y cyfarfod fydd eich pwynt cysywllt drwy gydol y prynhawn. Bydd ef neu hi yn ymdrin ag unrhyw ymholiadau a allai fod gennych. Ni

fydd cyfarfodydd Panel Arfarnu yn cael eu hoedi ar gyfer hwyrddyfodiaid. Er mwyn cadw achosion o darfu i gyn lleied â phosibl, efallai na chaiff hwyrddyfodiaid fynediad i'r cyfarfod nes bydd toriad addas.

A oes angen i mi aros ar gyfer y cyfarfod cyfan?
Mae cyfarfodydd pwyllgor yn amrywio mewn hyd yn dibynnu ar y pynciau a drafodir. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd rhagweld pa mor hir a gymer i drafod pob pwnc a phryd y bydd cyfarfod yn dod i ben. Bydd y Cadeirydd yn amlinellu'r agenda ar gyfer y dydd ar ddechrau'r cyfarfod, ac efallai y bydd yn rhoi rhyw syniad o pryd y trafodir rhai pynciau penodol.

Rhennir y cyfarfod yn ddwy ran, gyda'r pynciau yn cael eu trafod yn yr hanner cyntaf. Bydd ail ran y cyfarfod yn ymdrin â busnes mwy cyffredinol y pwyllgor, ac ni fydd ar agor i sylwedyddion o blith y cyhoedd.

Er mwyn cadw unrhyw darfu i gyn lleied â phosibl gofynnwn i aelodau o'r cyhoedd sy'n sylwedyddion, lle bo hynny'n bosibl, i adael yn ystod toriad addas. Fodd bynnag, os oes angen gadael y cyfarfod yn gynnar, gofynnwn i chi wneud hynny'n dawel.

A ddarperir lluniaeth?
Darperir te, coffi a dŵr yn yr ardal a glustnodir ar gyfer sylwedyddion o blith cyhoedd yn yr ystafell gyfarfod. Peidiwch â dod â bwyd i'r ystafell gyfarfod.

Pa mor hir fydd y cyfarfod yn para?
Bydd y Cadeirydd yn amlinellu'r agenda ar gyfer y dydd ar ddechrau'r cyfarfod. Gall y cyflwyniad a'r drafodaeth gymryd hyd at 60 munud ar gyfer pob technoleg, fodd bynnag mae'n anodd gwybod pa mor hir a gymer i drafod pob technoleg neu pryd fydd cyfarfod yn gorffen. Amserlennir cyfarfodydd Panel Arfarnu HTW i redeg am 3 awr. Yn dibynnu ar swm y busnes a'r trafodaethau, gall cyfarfodydd orffen ychydig yn gynt neu'n hwyrach.

A oes angen i mi roi gwybod i chi os ydw i wedi cofrestru i arsylwi ac nad ydw i'n gallu mynychu mwyach?
Rhowch wybod i gydlynydd y cyfarfod cyn gynted â phosibl os na allwch fynychu'r cyfarfod. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael i'r cyhoedd fynychu a thrwy anfon eich ymddiheuriadau gyda chymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl gellir rhoi eich lle i rywun arall.

Pa gyfleusterau sydd ar gael ar gyfer pobl sydd ag anableddau?
Gall defnyddwyr cadair olwyn gael mynediad uniongyrchol i'r lleoliad o'r stryd. Fodd bynnag, oherwydd rheoliadau diogelwch yr adeilad a bennwyd gan y gwasanaeth tân, cyfyngir ar nifer y bobl sydd ag anawsterau symudedd y gallwn ddarparu ar eu cyfer mewn cyfarfodydd. Os ydych yn ddefnyddiwr cadair olwyn neu os oes gennych anawsterau cerdded, cysylltwch â chydlynydd y cyfarfod fel y gallwn sicrhau bod cefnogaeth briodol wedi'i threfnu.

Mae dolen sain wedi'i gosod yn yr ystafell bwyllgor ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw. Rhowch wybod i ni ymlaen llaw os bydd angen i chi ei defnyddio.

A all plant fynychu cyfarfodydd?
Ni all plant dan 16 oed fynychu cyfarfodydd.

A ddarperir papurau fel y gall sylwedyddion o blith y cyhoedd ddilyn y cyfarfod?
Mae'r pynciau yr ymdrinnir â hwy i'w gweld ar wefan HTW 20 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Mae gwybodaeth gefndir am y pwnc sy'n cael ei drafod hefyd i'w chael ar wefan HTW. Mae croeso i chi lawrlwytho'r rhain a dod â hwy i'r cyfarfod.

Os bydd angen, darperir pecyn gwybodaeth i chi sy'n cynnwys agenda a chopïau o'r Adroddiad Archwilio Pwnc cryno ar gyfer pob technoleg. Ni ddylid mynd â'r pecyn hwn o'r ystafell gyfarfod a rhaid ei ddychwelyd i gydlynydd cyfarfod Panel Arfarnu HTW ar ddiwedd y cyfarfod. Mae hyn oherwydd y gall fod gwybodaeth gyfrinachol yn y gwaith papur sydd ddim yn ddogfennau terfynol ac efallai y caiff y manylion sydd ynddynt eu diwygio yn dilyn cyfarfod y Panel Arfarnu.

Oherwydd bod y papurau eraill yn nifer o dudalennau o hyd ac yn aml yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol (masnachol, academaidd neu fel arall), ac mewn rhai achosion gwybodaeth bersonol a sensitif, ni allwn ddarparu'r rhain ar gyfer sylwedyddion o blith y cyhoedd.

Bydd gofyn i holl aelodau'r cyhoedd sy'n sylwedyddion arwyddo cytundeb cyfrinachedd pan fyddant yn mynychu Panel Arfarnu HTW.

A fyddaf yn gallu gwrando ar yr holl drafodaethau?
Mae HTW wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus a hoffem i gymaint â phosibl o'r cyfarfod ddigwydd gyda'r cyhoedd yn bresennol.

Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fo peth o'r wybodaeth y mae angen i'r Panel Arfarnu ei thrafod fod yn gyfrinachol. Os felly, gofynnir i'r holl sylwedyddion o blith y cyhoedd adael yr ystafell tra bod y trafodaethau hyn yn digwydd.

Mae gwybodaeth sydd wedi'i nodi'n gyfrinachol yn cynnwys gwaith academaidd neu bolisi cyfrinachol, tystiolaethau personol cleifion ac arbenigwyr lleyg (os mai dyna ddymuniad y claf neu'r arbenigwyr lleyg) a gwybodaeth a elwir yn "commercial in confidence". Golyga hyn y gallai datgelu'r wybodaeth hon i'r cyhoedd gael effaith ar fuddiannau masnachol y cwmni penodol neu fudd academaidd ymchwil neu sefydliad proffesiynol, neu fudd polisi y llywodraeth.

Gofynnir i sylwedyddion o blith y cyhoedd hefyd adael yr ystafell pan gynhelir trafodaethau terfynol i gadarnhau'r canllaw.

Rhennir y cyfarfod yn ddwy ran, gyda'r pynciau yn cael eu trafod yn yr hanner cyntaf. Bydd ail ran y cyfarfod yn ymdrin â busnes mwy cyffredinol y pwyllgor, ac ni fydd ar agor i sylwedyddion o blith y cyhoedd.

A allaf siarad ag aelodau'r Panel Arfarnu?
Rôl aelodau Panel Arfarnu HTW yw gwneud asesiad annibynnol o'r dystiolaeth. Mae'n bwysig iawn nad oes unrhyw un yn ceisio dylanwadu ar aelod unigol yn ystod y cyfarfod, yn ystod egwylion neu tu allan i'r cyfarfod ynglŷn ag unrhyw bynciau sy'n cael eu trafod. Os oes gennych unrhyw gwestiynau gall cydlynydd cyfarfod Panel Arfarnu HTW eich helpu.

A allaf siarad â'r arbenigwyr allanol sy'n cyflwyno tystiolaeth i gyfarfod y pwyllgor?
Unwaith eto, gofynnwn i sylwedyddion o blith y cyhoedd gyfeirio unrhyw gwestiynau sydd ganddynt at gydlynydd y cyfarfod yn y man cyntaf yn hytrach na mynd yn uniongyrchol at yr arbenigwyr allanol.

Mae'r arbenigwyr allanol yn gwirfoddoli eu hamser i fynychu cyfarfodydd pwyllgor. Mae'n rhaid iddynt dreulio amser yn paratoi'r hyn y maent am ei ddweud wrth y pwyllgor ac maent yn canolbwyntio ar y busnes dan sylw. Hefyd, gall arbenigwyr cleifion, aelodau lleyg a defnyddwyr gwasanaeth deimlo bod cyfarfodydd yn straen wrth iddynt ddatgelu eu profiad personol ynglŷn â salwch neu gyflwr penodol. Rôl yr arbenigwyr yw rhoi eu barn broffesiynol i'r pwyllgor ynglŷn â salwch neu gyflwr a'r driniaeth neu'r ymyrraeth sy'n cael ei hystyried ac mae'n bwysig nad oes unrhyw un yn ceisio dylanwadu ar arbenigwr unigol.

A allaf gymryd nodiadau yn y cyfarfod?
Gallwch gymryd nodiadau, ond ni chaniateir defnyddio gliniaduron neu ddyfeisiau electronig eraill yn ystod y cyfarfod. Rhaid diffodd pob ffôn symudol, gliniadur a thabled yn ystod y cyfarfod. Cyhoeddir cofnodion y cyfarfod ar y wefan unwaith eu bod wedi'u cymeradwyo gan y grŵp.

Ni chaniateir recordio sain neu fideo, tynnu lluniau neu ddefnydd arall o gyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfarfod. Os gwelir unrhyw un yn recordio/darlledu yn ystod cyfarfod gofynnir iddynt adael ar unwaith.

A allaf i ddyfynnu neu adrodd am yr hyn a ddywedwyd mewn cyfarfod?
Cyfarfod cyhoeddus yw hwn a gellir dyfynnu'r hyn a ddywed aelodau wedi'r cyfarfod. Rydym yn dibynnu ar rannu barn yn llawn ac agored er mwyn cyflawni ein gwaith a bydd aelodau'r grŵp yn trafod y dystiolaeth yn drylwyr. Gofynnwn i'r cyhoedd barchu ei bod hi'n bwysig bod aelodau yn gallu siarad yn rhydd heb bryder y gallant gael eu camddyfynnu neu fod rhywbeth a ddywedwyd ganddynt yn cael ei adrodd mewn cyd-destun gwahanol.

A allaf ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfarfod?

Ni chaniateir adrodd yn fyw ar weithdrefnau cyfarfod gan y gallai hynny beri risg fasnachol. Os gwelir eich bod yn darlledu'r cyfarfod drwy unrhyw gyfryngau gofynnir i chi adael.

A allaf gynnal astudiaeth ymchwil ar y cyfarfod a/neu Banel Arfarnu HTW?
Os ydych chi wedi cofrestru i fynychu, ac am gynnal astudiaeth ar y cyfarfod a/neu brosesau Panel Arfarnu HTW, cysylltwch â chydlynydd y cyfarfod. Bydd angen i chi ddarparu manylion diben a chyd-destun eich astudiaeth a'r wybodaeth yr ydych yn bwriadu ei chasglu. Yna rhoddir y wybodaeth hon i Gyfarwyddwr HTW ar gyfer cysyniad. Hysbysir chi ynglŷn â phenderfyniad Panel Arfarnu HTW drwy e-bost. Os nad yw'n bosibl i chi gynnal eich astudiaeth ymchwil byddwch yn dal i allu arsylwi yn y cyfarfod, fodd bynnag ni chewch gynnal unrhyw ymchwil yn y cyfarfod. Os nad ydych yn dymuno mynychu'r cyfarfod mwyach, rhowch wybod i gydlynydd y cyfarfod fel y gellir cynnig eich lle i rywun arall.

Beth fydd yn digwydd os bydd sylwedydd o blith y cyhoedd yn ceisio tarfu ar y cyfarfod?
Rydym yn disgwyl i bawb sy'n dod i gyfarfod barchu gwaith y grŵp ac i beidio â tharfu o gwbl. Os bydd unrhyw un yn tarfu, bydd y cyfarfod yn cael ei atal ac efallai y bydd y Cadeirydd yn mynnu bod yr unigolyn yn gadael cyn ailddechrau.

Efallai y byddwn hefyd yn atal sylwedyddion o blith y cyhoedd sy'n tarfu rhag mynychu unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol.

A oes rheoliadau ar gyfer aelodau o'r cyfryngau sy'n cofrestru i fynychu cyfarfod?
Bydd aelod o dîm cyfathrebu HTW yn mynychu cyfarfodydd pan fo aelodau o'r cyfyngau yn bresennol a bydd yn rhoi sesiwn friffio. Os oes gennych ymholiadau yn ymwneud â'r cyfryngau, cysylltwch â Dewi Powell yn HTW.

Dylid gwneud ceisiadau am gyfweliadau cyfryngau drwy dîm cyfathrebu HTW. Caiff unrhyw gais arall ei wrthod yn awtomatig. Mae'n annhebygol y cynhelir cyfweliadau cyfryngau gyda staff HTW neu aelodau'r pwyllgor yn syth wedi'r cyfarfod, oherwydd trefniadau teithio a fydd eisoes wedi'u gwneud. Fodd bynnag, bydd tîm cyfathrebu HTW yn ceisio canfod amser a lleoliad addas ar ddyddiad arall yn y dyfodol. Dylid cynnal cyfweliadau gydag arbenigwyr allanol yn rhywle sydd ddim yn eiddo HTW.

A gyhoeddir y Canllaw yn y cyfarfod?
Na. Bydd Panel Arfarnu HTW yn ceisio cwblhau ei Ganllaw yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd aelodau Panel Arfarnu HTW yn gwneud cais i ystyried y cyngor drafft unwaith eto. Ni fydd Canllaw terfynol y Panel Arfarnu yn dod yn gyhoeddus nes y cyhoeddir y Canllaw ar ein gwefan. Y rheswm am hyn yw nad yw'r gwaith papur sy'n ymwneud â'r cyfarfod yn gyfystyr â Chanllaw terfynol a bydd yn cael ei ddiweddaru wedi'r cyfarfod.

Pryd fydd cyngor terfynol Panel Arfarnu HTW yn cael ei gyhoeddi?
Cyhoeddir Canllaw Panel Arfarnu HTW ar y wefan tua 4 wythnos wedi'r cyfarfod pan gafodd ei ystyried. Hyd nes yr adeg honno mae trafodaethau'r cyfarfod a drafftiau yn gyfrinachol. Yna dosberthir Canllaw Panel Arfarnu HTW ar draws GIG Cymru.

Adborth a gwerthuso
Byddwch yn derbyn dolen i arolwg ar-lein wedi'r cyfarfod yn gofyn am eich barn am y profiad o arsylwi ar Banel Arfarnu HTW. Rydym yn eich annog i roi adborth gonest er mwyn ein helpu i adolygu, datblygu a gwella'r broses hon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â mynychu cyfarfod Panel Arfarnu HTW mae croeso i chi gysylltu drwy healthtechnology@wales.nhs.uk